# Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE · NO. 18

## Anthony Phillips

*by Emmanuel Cooper*




Photo: Peter Prowse

There is something particularly intriguing about potters who choose to work in a large city, for they raise fascinating questions about the role of the potter in late twentieth century society. Traditionally potters have either pursued their craft on the edge of towns and cities moving further out as the urban environment encroached, or set up their potteries in the country where there is plenty of space, and costs are kept at a minimum. Their work tends to be robust and country style. Studio potters who have workshops in the heart of a city usually use electric kilns and concentrate on making a relatively small number of individual pieces and a range of production wares which are refined and sophisticated in feel. Anthony Phillips is such a potter. Five years ago he chose to be a London potter with the specific aim of making refined production pottery and he took one of the spaces in one of the new centres of artistic activity, the old warehouses which stand by the Thames, in the heart of London's dockland.

Anthony Phillips' studio is narrow and long, and unlike most pottery workshops is on the third floor. At one end of the studio is a round, top loading electric kiln, at the other a Victorian warehouse window with a magnificent view overlooking the river. In the distance, easily visible on a clear day, is the ordered splendour of Greenwich; immediately below the window is a small pier jutting into the river; along the banks of the Thames are the buildings which at one time formed the heart of London's sea trade. Now virtually all have found new uses and hum with activity; the buildings themselves, simple Victorian structures four or five storeys tall, have a handsome strength, and their architecture is functional and appropriate. Internally the buildings on Metropolitan Wharf have become a warren of studios for artists, jewellers, frame-makers, painters, printers and one or two potters. The view, and the geographical position, compensate for the rents, which rise regularly, and the limited space.

The decision to settle in Wapping came after Anthony Phillips' two year studio pottery course at Harrow: this was chosen for its practical bias and the sound training it offered in production and throwing skills. Before, his job had been as a computer programmer but for five years he had attended evening classes at Morley College, London, and got hooked on the craft. At school he had had little art training and so had not been able to explore that aspect of his creativeness. At Morely he enjoyed the learning of skills and the production of pots. So, at 29, feeling that he had little in common with the business world of computer programming and the everlasting talk of hard and software, he applied for and was accepted on to the Harrow course.

At Harrow he tried all the various making and decorating techniques. Richard Slee and Alison Britton were visiting lecturers and he particularly responded to their approach and ideas. In his show at the end of the two years he included work from all the various areas, but he had already been bitten by the red earthenware bug. At the time, the fashion was for reduction fired stoneware, but he found himself attracted to the 'difference' of red earthenware, and the opportunities this offered for incorporating a wide range of colours through the use of clay slips. He remembers thinking that he would have liked another year to have worked on his ideas. As it happened it took him longer than this, for he estimates that it took eighteen months to two years for his style to develop and mature: only then did he feel he was making the sort of pots he wanted.

I first saw Anthony Phillips' range of domestic pots at Anatol Orient's gallery/shop which was then in Islington: this was the first place to approach him for work, rather than the other way round. The red earthenware mugs, cups, and so on had been thrown fairly thin and covered with a creamy white slip; on to this had been trailed an abstract design in different coloured slips. The pattern quality, the repeating rhythms of the slip-trailed lines, the carefully controlled but briskly carried out designs gave a bright, colourful and modern effect. This was, I thought, slip decoration brought up to date. Since then Phillips has consolidated and extended his range, but he still follows his basic principle that his pots should be practical, reasonable in price and attractive to look at.


Slip decorated wares are one of the group of pots recognised as some of the most attractive and important ever made in Britain, particularly in the seventeenth and eighteenth centuries.

# Y Gyfres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH RHIF 18

## Anthony Phillips

*gan Emmanuel Cooper*



Mae rhywbeth yn arbennig o ddiddorol ynglŷn â chrochenyddion sy'n dewis gweithio mewn dinas fawr, gan eu bod yn codi cwestiynau dyrys ynglyn â swyddogaeth y crochenydd mewn cymdeithas yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif. Yn draddodiadol mae crochenyddion naill ai wedi dilyn eu crefft ar gyrion trefi a dinasoedd gan symud ynhellach o'r canol fel mae'r amgylchfyd trefol yn lledaenu, neu wedi sefydlu eu crochendai yn y wlad lle nad oes prinder lle a lle gellir cadw costau mor isel â phosibl. Mae eu gwaith yn tueddu i fod yn gadarn ac yn wledig ei arddull. Fel rheol mae crochenyddion stiwdio sydd â'u gweithdai yng nghanol dinas yn defnyddio odynau trydan ac yn canolbwyntio ar gynhyrchu nifer gymharol fach o eitemau unigol a chyfresi o gynnyrch ag iddynt ymdeimlad o geinder a soffistigeiddrwydd. Dyna'r math o grochenydd yw Anthony Phillips. Bum mlynedd yn ôl penderfynodd fod yn grochenydd yn Llundain gyda'r amcan pendant o gynhyrchu cyfresi o grochenwaith cain, a chafodd le i weithio yn un o'r canolfannau newydd ar gyfer gweithgarwch artistig, mewn hen warws ar lan afon Tafwys yng nghanol ardal y dociau yn Llundain.

Stwidio hir a chul yw stiwdio Anthony Phillips, ac yn wahanol i weithdai'r mwyafrif o grochenyddion, mae wedi ei lleoli ar y trydydd llawr. Yn un pen o'r stiwdio mae odyn drydan gron sy'n cael ei llwytho drwy'r top, ac yn y pen arall mae ffenestr warws Fictorianaidd gyda golygfa wych o'r afon. Yn y pellter, ac i'w weld yn amlwg ar ddiwrnod clir, mae ysblander trefnus Greenwich; yn union o dan y ffenestr mae glanfa fechan yn ymwthio allan i'r afon; ar hyd glannau Tafwys mae'r adeiladau a fu gynt yn ganolfan masnach dramor Llundain. Erbyn hyn mae bron y cwbl ohonynt yn cael eu defnyddio i rwy bwrpas arall ac mae'r lle yn byrlymu o weithgarwch; mae'r adeiladau eu hunain, adeiladau Fictoraidd syml gyda phedwar neu bump llawr, yn gryf a golygus a'u pensaerniaeth yn addas a phwrpasol. Y tu fewn mae'r adeiladau ar 'Metropolitan Wharf' erbyn hyn yn ddrysfa o stiwdios artistiaid, gemyddion, gwneuthurwyr fframiau, peintwyr, argraffwyr ac un neu ddau o grochenyddion. Mae'r olygfa a'r lleoliad daeryddol, yn gwneud iawn am y prinder lle a'r rhenti sy'n codi'n gyson.

Daeth y penderfyniad i ymsefydlu yn Wapping ar derfyn cwrs dwy flynedd mewn crochenwaith stiwdio y bu Anthony Phillips yn ei ddilyn yn Harrow: dewisodd y cwrs hwnnw oherwydd y pwyslais ymarferol a'r hyfforddiant diogel mewn sgiliau cynhyrchu a 'thaflu' a gynigid. Cyn hynny, roedd yn gweithio fel cynhyrchydd rhaglenni cyfrifiaduron ond roedd wedi bod yn mynchu dosbarthiadau nos am bum mlynedd yng Ngholeg Morley, Llundain, ac roedd yn grefft wedi mynd i'w waed. Ychydig iawn o hyfforddiant celf a gawsai yn yr ysgol, ac felly nid oedd wedi gallu archwilio'r agwedd honno ar ei greadigrwydd. Ym Morley roedd wrth ei fodd yn meistroli'r sgiliau ac yn cynhyrchu potiau. Felly, ac yntau'n naw ar hugain oed, ac yn teimlo nad oedd ganddo lawer i'w ddweud wrth fyd busnes rhaglenni cyfrifiaduron a'r sôn diddiwedd am galedwedd a meddalwedd, ymgeisiodd am le ar y cwrs yn Harrow a chafodd ei dderbyn.

Yn Harrow rhoddodd gynnig ar yr holl amryfal dechnegau o lunio ac addurno crochenwaith. Roedd Richard Slee ac Alison Britton yn ddarlithwyr ymweliadol ac roedd yntau ym ymateb yn arbennig i'w syniadau a'u dulliau o fynd ynglŷn â'u gwaith. Yn ei arddangosfa ar derfyn y ddwy flynedd cynhwysodd waith o bob math, ond eisoes roedd ei ddiddordeb mewn llestri pridd cochion wedi ei ennyn. Ar y pryd, crochenwaith caled wedi ei danio'n rhydwythiol oedd yn y ffasiwn, ond cafodd ei hun yn cael ei ddenu gan nodweddion gwahanol llestri pridd cochion a'r cyfle a roi'r cyfrwng hwnnw i gynnwys ystod eang o liwiau drwy ddefnyddio slips clai. Mae'n cofio meddwl y buasai wedi hoffi treulio blwyddyn arall i weithio ar ei syniadau. Fel y digwyddodd pethau cymerodd dipyn mwy o amser na hynny, mae'n amcangyfrif iddi gymryd rhwng deunaw mis a dwy flynedd i'w arddull ddatblygu ac aeddfedu: dim ond ar ddiwedd y cyfnod hwnnw y teimlai ei fod yn cynhyrchu'r math o botiau y dymunai eu cynhyrchu.

Gwelais gasgliad o lestri domestig Anthony Phillips am y tro cyntaf yn oriel/siop Anatol Orient a oedd yn Islington ar y pryd: dyma oedd y lle cyntaf i fynd i'w weld ynglŷn â gwaith, yn hytrach na'r ffordd arferol. Roedd y mygiau a'r cwpanau llestri pridd cochion ac ati, wedi eu 'taflu' yn weddol denau ac wedi eu gorchuddio â slip gwyn hufenaidd. Roedd ansawdd y patrymau, rhythm ail-adroddus y llinellau slip, y cynlluniau dan reolaeth ofalus a oedd wedi eu llunio'n fywiog, yn creu argraff ddisglair, liwgar a modern. Dyma, yn fy marn i, oedd addurno slip ar ffurf gyfoes. Ers hynny mae Phillips wedi cyfnerthu ac ymestyn ei gyraeddiadau, ond mae'n dal yn ffyddlon i'w egwyddor sylfaenol y dylai ei waith fod yn ymarferol, yn rhesymol ei bris ac yn ddeniadol i'r llygad.

Llestri wedi eu haddurno â slip yw un o'r grwpiau o botiau sy'n cael eu cydnabod ymhlith y rhai mwyaf atyniadol a phwysicaf a wnaed ym Mhrydain erioed, yn arbennig yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. Roedd y potiau hyn o glai coch yn cael eu 'taflu' neu eu gwasgu mewn mowld ac yn cael eu haddurno â nifer gyfyng o slips lliw; roedd y cynlluniau yn ffigurol yn aml, yn cynrychioli pobl enwog, chwedlau, golygfeydd crefyddol, anifeiliaid a dail: hufen cyfoethog, lliw mêl a brown oedd eu lliwiau. Er ei fod yn cydnabod apêl y gwaith hwn, mae gwaith Phillips wedi datbygu i gyfeiriadau eraill. Mae'r potiau i gyd yn cael eu 'taflu' ar droell drydan ac yn cael eu haddurno â slips o bob lliw posibl — glas, melyn, gwyrdd, pinc, llwyd, oren ac ati. Haniaethol yn hytrach na chynrychioladol yw'r cynlluniau. Mae'r gorffeniad ar bob eitem o'i waith yn gymen a'r slip yn cael ei drafod gyda hyder manwl; ac mae'r ymylon yn bendant eu gorffeniad heb unrhyw slip wedi rhedeg nag unrhyw smotyn heb ei ddileu. Gwneir cymaint o waith ag sy'n bosibl ar y potiau yn ystod y 'taflu' fel na fydd angen troelli, gweithgarwch y cyfeirir ato gan Phillips fel 'gwastraff amser'. Dim ond eitemau megis tebotiau, dysglau a phlatiau sy'n cael eu troelli. Niferoedd cymharol fychan o eiteman sy'n cael eu 'taflu' mewn un sesiwn: 30 o fygiau a 10 tebot er enghraifft. Gweithredir felly er mwyn osogi'r undonedd sy'n gallu dod yn sgîl 'taflu' parhaus ar raddfa fawr, ond mae hefyd yn ymarferol gan ei fod yn nifer hwylus o eitemau ar gyfer eu haddurno. Golyga hyn drochi pob eitem mewn slip pan mae'r clai 'cyn galeted â lledr' a thynnu llinellau slip arnynt pan maent wedi caledu 'fel lledr' unwaith eto. Caiff y potiau i gyd eu tanio ar dymheredd cymharol isel cyn eu trochi mewn gwydredd tryloyw plwm/boracs clir sy'n hawdd ei drafod ac sydd ddim yn cracellu.


Cynllunir y ffurfiau i gyd fel eu bod yn addas i'w haddurno. Nid oes unrhyw addurn na llinellau gwrymiog arnynt, ac maent wedi eu llunio yn y fath fodd nes bod un crymedd, boed yn bochio neu'n pantio, yn gwbl amlwg. Mae'r arwynebau,

# Y Gyfres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH RHIF 18

## Anthony Phillips

*gan Emmanuel Cooper*



Mae rhywbeth yn arbennig o ddiddorol ynglŷn â chrochenyddion sy'n dewis gweithio mewn dinas fawr, gan eu bod yn codi cwestiynau dyrys ynglyn â swyddogaeth y crochenydd mewn cymdeithas yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif. Yn draddodiadol mae crochenyddion naill ai wedi dilyn eu crefft ar gyrion trefi a dinasoedd gan symud ynhellach o'r canol fel mae'r amgylchfyd trefol yn lledaenu, neu wedi sefydlu eu crochendai yn y wlad lle nad oes prinder lle a lle gellir cadw costau mor isel â phosibl. Mae eu gwaith yn tueddu i fod yn gadarn ac yn wledig ei arddull. Fel rheol mae crochenyddion stiwdio sydd â'u gweithdai yng nghanol dinas yn defnyddio odynau trydan ac yn canolbwyntio ar gynhyrchu nifer gymharol fach o eitemau unigol a chyfresi o gynnyrch ag iddynt ymdeimlad o geinder a soffistigeiddrwydd. Dyna'r math o grochenydd yw Anthony Phillips. Bum mlynedd yn ôl penderfynodd fod yn grochenydd yn Llundain gyda'r amcan pendant o gynhyrchu cyfresi o grochenwaith cain, a chafodd le i weithio yn un o'r canolfannau newydd ar gyfer gweithgarwch artistig, mewn hen warws ar lan afon Tafwys yng nghanol ardal y dociau yn Llundain.

Stwidio hir a chul yw stiwdio Anthony Phillips, ac yn wahanol i weithdai'r mwyafrif o grochenyddion, mae wedi ei lleoli ar y trydydd llawr. Yn un pen o'r stiwdio mae odyn drydan gron sy'n cael ei llwytho drwy'r top, ac yn y pen arall mae ffenestr warws Fictorianaidd gyda golygfa wych o'r afon. Yn y pellter, ac i'w weld yn amlwg ar ddiwrnod clir, mae ysblander trefnus Greenwich; yn union o dan y ffenestr mae glanfa fechan yn ymwthio allan i'r afon; ar hyd glannau Tafwys mae'r adeiladau a fu gynt yn ganolfan masnach dramor Llundain. Erbyn hyn mae bron y cwbl ohonynt yn cael eu defnyddio i rwy bwrpas arall ac mae'r lle yn byrlymu o weithgarwch; mae'r adeiladau eu hunain, adeiladau Fictoraidd syml gyda phedwar neu bump llawr, yn gryf a golygus a'u pensaerniaeth yn addas a phwrpasol. Y tu fewn mae'r adeiladau ar 'Metropolitan Wharf' erbyn hyn yn ddrysfa o stiwdios artistiaid, gemyddion, gwneuthurwyr fframiau, peintwyr, argraffwyr ac un neu ddau o grochenyddion. Mae'r olygfa a'r lleoliad daeryddol, yn gwneud iawn am y prinder lle a'r rhenti sy'n codi'n gyson.

Daeth y penderfyniad i ymsefydlu yn Wapping ar derfyn cwrs dwy flynedd mewn crochenwaith stiwdio y bu Anthony Phillips yn ei ddilyn yn Harrow: dewisodd y cwrs hwnnw oherwydd y pwyslais ymarferol a'r hyfforddiant diogel mewn sgiliau cynhyrchu a 'thaflu' a gynigid. Cyn hynny, roedd yn gweithio fel cynhyrchydd rhaglenni cyfrifaduron ond roedd wedi bod yn mynchu dosbarthiadau nos am bum mlynedd yng Ngholeg Morley, Llundain, ac roedd yn grefft wedi mynd i'w waed. Ychydig iawn o hyfforddiant celf a gawsai yn yr ysgol, ac felly nid oedd wedi gallu archwilio'r agwedd honno ar ei greadigrwydd. Ym Morley roedd wrth ei fodd yn meistroli'r sgiliau ac yn cynhyrchu potiau. Felly, ac yntau'n naw ar hugain oed, ac yn teimlo nad oedd ganddo lawer i'w ddweud wrth fyd busnes rhaglenni cyfrifiaduron a'r sôn diddiwedd am galedwedd a meddalwedd, ymgeisiodd am le ar y cwrs yn Harrow a chafodd ei dderbyn.

Yn Harrow rhoddodd gynnig ar yr holl amryfal dechnegau o lunio ac addurno crochenwaith. Roedd Richard Slee ac Alison Britton yn ddarlithwyr ymweliadol ac roedd yntau ym ymateb yn arbennig i'w syniadau a'u dulliau o fynd ynglŷn â'u gwaith. Yn ei arddangosfa ar derfyn y ddwy flynedd cynhwysodd waith o bob math, ond eisoes roedd ei ddiddordeb mewn llestri pridd cochion wedi ei ennyn. Ar y pryd, crochenwaith caled wedi ei danio'n rhydwythiol oedd yn y ffasiwn, ond cafodd ei hun yn cael ei ddenu gan nodweddion gwahanol llestri pridd cochion a'r cyfle a roi'r cyfrwng hwnnw i gynnwys ystod eang o liwiau drwy ddefnyddio slips clai. Mae'n cofio meddwl y buasai wedi hoffi treulio blwyddyn arall i weithio ar ei syniadau. Fel y digwyddodd pethau cymerodd dipyn mwy o amser na hynny, mae'n amcangyfrif iddi gymryd rhwng deunaw mis a dwy flynedd i'w arddull ddatblygu ac aeddfedu: dim ond ar ddiwedd y cyfnod hwnnw y teimlai ei fod yn cynhyrchu'r math o botiau y dymunai eu cynhyrchu.

Gwelais gasgliad o lestri domestig Anthony Phillips am y tro cyntaf yn oriel/siop Anatol Orient a oedd yn Islington ar y pryd: dyma oedd y lle cyntaf i fynd i'w weld ynglŷn â gwaith, yn hytrach na'r ffordd arferol. Roedd y mygiau a'r cwpanau llestri pridd cochion ac ati, wedi eu 'taflu' yn weddol denau ac wedi eu gorchuddio â slip gwyn hufenaidd. Roedd ansawdd y patrymau, rhythm ail-adroddus y llinellau slip, y cynlluniau dan reolaeth ofalus a oedd wedi eu llunio'n fywiog, yn creu argraff ddisglair, liwgar a modern. Dyma, yn fy marn i, oedd addurno slip ar ffurf gyfoes. Ers hynny mae Phillips wedi cyfnerthu ac ymestyn ei gyraeddiadau, ond mae'n dal yn ffyddlon i'w egwyddor sylfaenol y dylai ei waith fod yn ymarferol, yn rhesymol ei bris ac yn ddeniadol i'r llygad.

Llestri wedi eu haddurno â slip yw un o'r grwpiau o botiau sy'n cael eu cydnabod ymhlith y rhai mwyaf atyniadol a phwysicaf a wnaed ym Mhrydain erioed, yn arbennig yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. Roedd y potiau hyn o glai coch yn cael eu 'taflu' neu eu gwasgu mewn mowld ac yn cael eu haddurno â nifer gyfyng o slips lliw; roedd y cynlluniau yn ffigurol yn aml, yn cynrychioli pobl enwog, chwedlau, golygfeydd crefyddol, anifeiliaid a dail: hufen cyfoethog, lliw mêl a brown oedd eu lliwiau. Er ei fod yn cydnabod apêl y gwaith hwn, mae gwaith Phillips wedi datbygu i gyfeiriadau eraill. Mae'r potiau i gyd yn cael eu 'taflu' ar droell drydan ac yn cael eu haddurno â slips o bob lliw posibl — glas, melyn, gwyrdd, pinc, llwyd, oren ac ati. Haniaethol yn hytrach na chynrychioladol yw'r cynlluniau. Mae'r gorffeniad ar bob eitem o'i waith yn gymen a'r slip yn cael ei drafod gyda hyder manwl; ac mae'r ymylon yn bendant eu gorffeniad heb unrhyw slip wedi rhedeg nag unrhyw smotyn heb ei ddileu. Gwneir cymaint o waith ag sy'n bosibl ar y potiau yn ystod y 'taflu' fel na fydd angen troelli, gweithgarwch y cyfeirir ato gan Phillips fel 'gwastraff amser'. Dim ond eitemau megis tebotiau, dysglau a phlatiau sy'n cael eu troelli. Niferoedd cymharol fychan o eiteman sy'n cael eu 'taflu' mewn un sesiwn: 30 o fygiau a 10 tebot er enghraifft. Gweithredir felly er mwyn osogi'r undonedd sy'n gallu dod yn sgîl 'taflu' parhaus ar raddfa fawr, ond mae hefyd yn ymarferol gan ei fod yn nifer hwylus o eitemau ar gyfer eu haddurno. Golyga hyn drochi pob eitem mewn slip pan mae'r clai 'cyn galeted â lledr' a thynnu llinellau slip arnynt pan maent wedi caledu 'fel lledr' unwaith eto. Caiff y potiau i gyd eu tanio ar dymheredd cymharol isel cyn eu trochi mewn gwydredd tryloyw plwm/boracs clir sy'n hawdd ei drafod ac sydd ddim yn cracellu.

Cynllunir y ffurfiau i gyd fel eu bod yn addas i'w haddurno. Nid oes unrhyw addurn na llinellau gwrymiog arnynt, ac maent wedi eu llunio yn y fath fodd nes bod un crymedd, boed yn bochio neu'n pantio, yn gwbl amlwg. Mae'r arwynebau,



heb unrhyw linellau 'tatlu' arnynt, yn cael eu gadael yn llyfn a phlaen, ac yn ddelfrydol ar gyfer cael eu haddurno â slip. Ar rai o'r ffurfiau ceir crymedd esmwyth, sy'n adlewyrchu, ond nid yn efelychu, ffurfiau tyfiant natur. Mae peth o ansawdd cynllunio'r tridegau ar rai ffurfiau eraill, megis y tebot gyda'r gwaelod llydan. Yn ôl Phillips daw ei syniadau am ffurfiau o amryw ffynonellau, gan gynnwys potiau eraill, ond maent yn ddieithriad yn mynd drwy gyfnod o addasu a newid. Bydd yn gweithio ar bob un ohonynt yn ei lyfr darlunio rywbryd neu'i gilydd.

Defnyddia broses digon tebyg wrth weithio ar ei gynlluniau llinellu slip, ond yn yr achos hwn mae cysylltiad agos iawn rhwng llawer o'r pendroni a'r weithred o daenu llinellau slip. Er y gall patrymau megis tân gwyllt yn ffrwydro yn yr awyr neu drefniant dail, sbarduno syniadau, dim ond pan mae'r taenellydd slip yn ei law yn barod i'w ddefnyddio y gwireddir y syniadau. Mae rhai o'r cynlluniau fel pe baent yn adleisio ansawdd droellog, drofaus, afon Tafwys ond, ym marn Phillips, nid yw hynny'n fwriad y mae'n ymwybodol ohono. Datblygodd technegau addurno slip Phillips rai rheolau sylfaenol sy'n hanfodol i sicrhau llwyddiant: nid fel unedau ar wahân ym ae'n synio am y motifau yn ei gynlluniau ond fel rhan o ddilyniant i'w hailadrodd; yn ddifeth maent dan reolaeth ofalus heb unrhyw elfen o siawns ar eu cyfyl, ac mae'r cynlluniau yn ymestyn o'r naill ymyl i'r llall. Yn achos mygiau, jygiau a thebotiau, mae'r patrymau yn ymestyn o'r top i'r gwaelod; ac ar blatiau a dysglau mae'r addurn wedi ei osod o fewn borderi pendant ac yn dwyn perthynas â hwy mewn modd sy'n arwain y llygad o'i amgylch yn barhaus.

Flwyddyn yn ôl dechreuodd Phillips lunio rhai o'i botiau o glai llestri pridd gwyn hawdd ei lunio. Ar y pryd roedd arno eisiau cynhyrchu slip llwyd, ond gan nad oedd hwn yn gweddu ar glai coch rhoddodd gynnig ar ei ddefnyddio ar gefndir gwyn. Cafodd ei foddhau gan y canlyniad disglair, ffres, ac mae cryn gyfran o'i gynnyrch mewn lliw gwyn erbyn hyn. Ymhlith yr eitemau hyn mae cwpanau a soseri brecwast Ffrengig sydd wedi eu gorchuddio â slip melyn golau ac wedi eu haddurno â phatrwm llinellog bywiog. Y canlyniad yw parhad soffistigedig o ffurfiau traddodiadol eu sail gyda blas modern arnynt: maent yn atyniadol ac yn ymarferol ac yn cyfuno rhagoriaethau'r hen a'r newydd. Mae slip wedi ei sychu oddi ar ymyl cwpan yn arddangos ac yn cryfhau'r ffurf, gan lwyddo i oresgyn y duedd sydd gan slip i wastatáu ffurfiau pan mae yn eu gorchuddio yn llwyr.



Yn fwy diweddar bu Anthony Phillips yn gweithio gyda gwydredd lliw wedi ei linellu ar arwyneb dysglau a daniwyd ar dymheredd isel, ac yna'n ei orchuddio â'i wydredd tryloyw. Mae hyn, meddai, yn golygu symud oddi wrth ansawdd ymyl galed, fanwl, llinellu â slip ac yn creu ymdeimlad mwy hyblyg ac arbrofol. Gwneir y gwydredd lliw drwy ychwanegu ocsidau a staeniau a gwydredd. Tra mae slip yn aros yn ei unfan yn ystod tanio, mae gwydredd yn symud ac yn rhedeg i lawr y pot gan greu amrywiaeth o batrymau a chynlluniau. Pan gaiff ei ddodi ar y tu fewn i ddysglau, gadewir yr ymyl yn blaen a diaddurn fel math o ffrâm i'r cynllun sy'n aml yn un cyffrous. Yn yr eitemau hyn mae elfen o adael pethau i gymryd eu siawns a bydd yn ddiddorol gweld yr effaith a gânt ar y llestri o waith Phillips sy'n cael eu haddurno â slip.

Mae gwaith lliwgar Anthony Phillips yn newid ac yn datblygu'n gyson. Fel afon Tafwys y tu allan i'w ffenestr, mae'r llif yn gyson ond yn ddi-atal: mae'r cynhyrchu'n mynd rhagddo, y syniadau yn cael eu hystyried a thechnegau newydd yn cael eu harbrofi. Rhoddodd Anthony Phillips ystyr a diffiniad newydd i 'Metropolitan Wares', ac yn rhyfedd ddigon efallai, tra mae ei sgiliau fel crochenydd yn adlewyrchu'r gorffennol, mae ei gynlluniau a'i syniadau yn perthyn yn gyfangwbl i'r presennol.

**Emmanuel Cooper**